

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
17 Tachwedd 2015, Siop, Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL:	
Cyng D Morgan, D Pritchard, D Roberts, A Williams, G D Williams, A Wyn, W Williams, R G Parry (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU:	
Cyng M Lees, W Vaughan, D ap Rhobert, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir), C McGregor.	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng A Wyn. Oedd y rhan fwyaf o'r cyfarfod yn y tywyllwch oherwydd toriad trydan
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20 Hydref 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng G D Williams yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Gor-yrru Llangwyllog - Mae'r Clerc yn disgwyl am wybodaeth gan PCSO M Hughes/Gan Bwyll
4.2	Gofeb Talwrn - Gofynwyd i'r Clerc trefnu cael pris gan Inigo Jones
4.3	Wal Lon y Capel - mae'r Clerc wedi siarad â'r perchennog ac nad oes ganddo unrhyw fwriad o atgyweirio'r wal gan fod yr eiddo ar werth
4.4	Arwydd - Neuadd - mae'r Clerc wedi cyflwyno cais am yr arwydd
4.5	Lon yr Ysgol - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.6	Palmant Talwrn - mae'r Clerc wedi derbyn y cynlluniau ac mae wedi dosbarthu i'r aelodau. Bydd y gwaith yn dechrau'r wythnos nesaf.
4.7	Yr Heddlu (PCSO Cymraeg) - Mae'r Clerc wedo cysylltu â'r Heddlu i ddweud bydd angen PCSO sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ein cyfarfodydd.
4.8	Cais cynllunio "chalets" Mynydd Bodafon. Mae'r Clerc wedi cysylltu a'r Cyngor Sir pedair gwaith i ofyn am copi o'r cynlluniau. Mae wedi derbyn rhywfaint o wybodaeth ond ddim y cynllun llawn. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr o gŵyn at y pennaeth cynllunio Mr D F Jones
5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C330 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Bryn Goleu, Talwrn - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.2	Palmant Newydd Talwrn - gweler 4.6
	Llofnod.....Cadeirydd 19.01.16

	Pennaeth Dysgu
5.3	Ymgynghoriad Llyfrgelloedd (gwybodaeth)
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	<p>Jenny Spillman - Darllenwyd ebost gan Mrs Spillman yn dweud:</p> <p>1 A wnaeth unrhyw un o'n cynghorwyr cymuned mynychu cyfarfod ymgynghori gyda'r Grid Cenedlaethol yn ddiweddar? Bydd y Clerc yn ymateb - 'roedd Cyng C McGregor yn cynrychioli Cyngor Cymuned Llanddyfnan.</p> <p>2 Dylai'r Cyngor Cymuned trefnu cyfarfod cyhoeddus yng Nghapel Coch i drafod y peilonau. Bydd y Clerc yn ymateb wrth dweud bod cyfarfod cyhoeddus wedi cael ei drefnu yn lleol.</p> <p>3 Mae hysbysffwrdd Capel Coch (yr un oedd tu allan i'r cyn-ysgol) gan Mrs Spillman. Bydd y Clerc yn trefnu cael pris i gosod yr hysbysffwrdd yn y pentref.</p> <p>4 Mae'n amlwg iawn bod ychydig iawn o'r gynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfodydd, hyn weithiau yn annigonol i gyfarfod cael ei gynnal. Gan fod y cyfarfodydd yn fisol gallent wneud mwy o ymdrech i fod yn bresennol. Os nad ydynt yn bresennol, dylai'r cynghorwyr sefyll i lawr ac yn caniatáu i bobl sy'n barod i ymrwymo i gymrud ei lle. Fel y canllawiau ar gyfer y ddwy iaith, ni ddylai hyn nadu pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg mynychu'r cyfarfodydd. Bydd y Clerc yn ymateb wrth dweud dim ond unwaith yn y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi methu cynnal cyfarfod gan nad oedd cworwm</p> <p>5 Nid yw dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cyhoeddi. Mae'r Clerc wedi cyhoeddi cyfarfodydd 2016 ar y wefan.</p>
7	MATERION ARIANNOL
7.1	Cyflog y Clerc - penderfyniwyd codi cyflog y Clerc i £250 y mis o Rhagfyr
7.2	Eisteddfod Genedlaethol 2017 - cais ariannol - penderfyniwyd ail edrych ar y mater diwedd y flwyddyn ariannol a bosib cynnig £1000 (2015/16) a £1000 (2016/17). Bydd unrhyw cyfraniad yn mynd at y cronfa lleol.
7.3	Penderfyniwyd talu: G Hughes torri gwair £290.00
8	MATERION ERAILL
8.1	Oherwydd damwain tu allan i Ysgol David Hughes, penderfyniwyd gofyn i'r Cyngor Sir ail ystyried 20myh tu allan i Ysgol Talwrn
8.2	Grybwyllwyd Cyng D Morgan unwaith eto y problemau gyda'r coed ym Maes y Coed, Talwrn. Nid yw y tir wedi cael ei mabwysiadu. Byddai'n diddordeb gwybod beth fyddai'n digwydd pe byddai coeden yn disgyn ac yn difrodi car. Gofynwyd i'r Clerc trefnu cyfarfod ar y safle gyda swyddogion y Cyngor Sir.
8.3	Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch at y Cyngor Sir am gosod peipiau draenio yn Llangwyllog
	Llofnod.....Cadeirydd 19.01.16

--	--